OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2005 Rhif 2701 (Cy.190)

GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

Rheoliadau Gwybodaeth Mabwysiadu a Gwasanaethau Cyfryngol (Mabwysiadau Cyn-gychwyn) (Cymru) 2005

Wedi'u gwneud - -	*27 Medi 2005*
Yn dod i rym - -	*30 Rhagfyr 2005*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 2(6), 9, 98 a 144(2) o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002(**1**) a chyda chymeradwyaeth Canghellor y Trysorlys i'r graddau y mae'n ofynnol o dan adran 98(6), drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

RHAN 1

CYFLWYNIAD

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gwybodaeth Mabwysiadu a Gwasanaethau Cyfryngol (Mabwysiadau Cyn-gychwyn) (Cymru) 2005 a deuant i rym ar 30 Rhagfyr 2005.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "asiantaeth cymorth mabwysiadu cofrestredig" ("*registered adoption support agency*") yw asiantaeth cymorth mabwysiadu y mae person wedi'i gofrestru mewn cysylltiad â hi dan Ran 2 o Ddeddf Safonau Gofal 2000(**2**);

mae i "yr asiantaeth fabwysiadu briodol" ("*the appropriate adoption agency*") yr un ystyr â "the appropriate adoption agency" yn adran 65(1) o Ddeddf 2002;

ystyr "y ceisydd" ("*the applicant*") yw person mabwysiedig neu berthynas person mabwysiedig sy'n gwneud cais o dan reoliad 5;

(**1**) 2002 p.38. Mae'r pwerau hyn yn arferadwy gan y Gweinidog priodol, a ddiffinnir yn adran 144(1) o'r Ddeddf o ran Lloegr, fel yr Ysgrifennydd Gwladol, o ran Cymru fel Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac o ran Cymru a Lloegr, fel Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol yn gweithredu ar y cyd.

(**2**) 2000 p.14.

ystyr "Deddf 2002" ("*the 2002 Act*") yw Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002;

mae i "gwasanaeth cyfryngol" ("*intermediary service*") ac "asiantaeth gyfryngol" ("*intermediary agency*") yr ystyron a roddir iddynt yn rheoliad 4;

ystyr "gwrthrych" ("*subject*") mewn perthynas â chais o dan y Rheoliadau hyn yw person y mae'r ceisydd yn gofyn am gyswllt ag ef;

mae i "gwybodaeth adnabod" ("*identifying information*") yr ystyr a roddir iddo yn rheoliad 7; ac

mae i "perthynas" yr un ystyr â "relative" o ran person mabwysiedig yn adran 98 o Ddeddf 2002.

RHAN 2

DARPARU GWASANAETHAU CYFRYNGOL

Asiantaethau sy'n cael darparu gwasanaethau cyfryngol

3.—(1) Caiff asiantaeth cymorth mabwysiadu gofrestredig neu asiantaeth fabwysiadu ddarparu gwasanaeth cyfryngol mewn cysylltiad â phersonau a fabwysiadwyd cyn 30 Rhagfyr 2005.

(2) Ni chaniateir darparu gwasanaeth cyfryngol ond mewn cysylltiad â phersonau a fabwysiadwyd ac a gyrhaeddodd 18 oed.

(3) Rhaid darparu'r gwasanaeth yn unol â'r Rheoliadau hyn.

(4) Mae gwasanaeth cyfryngol yn wasanaeth cymorth mabwysiadu at ddibenion adran 2(6) o Ddeddf 2002.

Ystyr "gwasanaeth cyfryngol" ac "asiantaeth gyfryngol"

4.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (3) mae gwasanaeth cyfryngol yn wasanaeth a ddarperir at ddibenion—

(a) cynorthwyo personau mabwysiedig i gael gwybodaeth mewn perthynas â'u mabwysiad; a

(b) hwyluso cyswllt rhwng y personau hynny a'u perthnasau.

(2) Cyfeirir at asiantaeth cymorth mabwysiadu gofrestredig neu asiantaeth fabwysiadu sy'n darparu gwasanaeth cyfryngol yn y Rheoliadau hyn fel "asiantaeth gyfryngol".

(3) Nid yw asiantaeth fabwysiadu yn darparu gwasanaeth cyfryngol at ddibenion y Rheoliadau hyn os hi yw'r asiantaeth fabwysiadu briodol mewn perthynas â pherson a fabwysiadwyd ac os nad yw hi ond yn darparu gwybodaeth am fabwysiad y person hwnnw.

RHAN 3

CEISIADAU AM WASANAETH CYFRYNGOL

Blaenoriaeth i fabwysiadau cyn 1976

5.—(1) Caiff asiantaeth gyfryngol, mewn perthynas â mabwysiad ar 30 Rhagfyr 2005, neu cyn hynny, dderbyn cais —

(a) oddi wrth y person mabwysiedig am gynorthwy i gael gwybodaeth am ei fabwysiad ac i gysylltu â pherthynas; neu

(b) oddi wrth berthynas y person mabwysiedig am gynorthwy i gysylltu â'r person hwnnw.

(2) Caiff asiantaeth gyfryngol dderbyn cais mewn perthynas â mabwysiad ar 12 Tachwedd 1975 neu ar ôl hynny, ond rhaid iddi roi blaenoriaeth i geisiadau mewn cysylltiad â mabwysiadau cyn y dyddiad hwnnw.

(3) Mewn ceisiadau o dan baragraff (1) a (2) uchod, rhaid i'r ceisydd a'r person y mae'r ceisydd yn ceisio cyswllt ag ef, neu'r person y mae'n ceisio gwybodaeth amdano, fod yn 18 oed neu'n hŷn.

Dim rhwymedigaeth i fwrw ymlaen os nad yw'n briodol

6.—(1) Nid yw'n ofynnol i asiantaeth gyfryngol sy'n derbyn cais o dan y Rheoliadau hyn fwrw ymlaen ag ef, neu os yw wedi dechrau bwrw ymlaen ag ef, nid yw'n ofynnol iddi barhau ag ef, os yw'r asiantaeth gyfryngol o'r farn na fyddai'n briodol gwneud hynny.

(2) Wrth benderfynu a yw'n briodol i fwrw ymlaen (neu ddal ati) gyda chais rhaid i'r asiantaeth gyfryngol roi ystyriaeth i'r canlynol—

(a) lles —

(i) y ceisydd;

(ii) y gwrthrych; a

(iii) unrhyw bersonau eraill y mae'n bosibl eu hadnabod neu eu heffeithio o ganlyniad i'r cais;

(b) unrhyw farn gan yr asiantaeth fabwysiadu briodol a gafwyd o dan reoliad 12;

(c) unrhyw feto a gofnodir o dan reoliad 8;

(ch) unrhyw wybodaeth a geir oddi wrth y Gofrestr Cyswllt Mabwysiadu o dan reoliad 13,

a holl amgylchiadau eraill yr achos.

(3) Mewn perthynas ag unrhyw benderfyniad o dan baragraff (2) rhaid i'r asiantaeth gyfryngol roi ystyriaeth arbennig i les unrhyw berson a grybwyllir ym mharagraff (2)(a)(iii) sydd o dan 18 oed.

(4) Os yw'r asiantaeth gyfryngol ar unrhyw adeg yn cael gwybod bod gwrthych y cais o dan 18 oed rhaid iddi beidio â bwrw ymlaen ymhellach â'r cais mewn perthynas â'r gwrthrych hwnnw.

Cydsyniad y gwrthrych i ddatgelu etc.

7.—(1) Rhaid i asiantaeth gyfryngol beidio â datgelu i'r ceisydd unrhyw wybodaeth adnabod am y gwrthrych heb yn gyntaf gael cydsyniad y gwrthrych.

(2) Rhaid i'r asiantaeth gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod gan unrhyw berson y mae'n ofynnol cael ei gydsyniad i ddatgelu o dan y rheoliad hwn ddigon o wybodaeth i alluogi iddo wneud penderfyniad deallus ynghylch cydsynio i unrhyw ddatgeliad o'r fath.

(3) Os yw'r gwrthrych wedi marw neu os yw'r asiantaeth gyfryngol yn penderfynu nad yw'r gwrthrych yn alluog i roi cydsyniad deallus, caiff yr asiantaeth gyfryngol ddatgelu yr wybodaeth adnabod honno am y gwrthrych yr ystyria ei bod yn briodol o ystyried y materion a nodir yn rheoliad 6.

(4) Yn y rheoliad hwn ac yn rheoliadau 9 a 12, ystyr "gwybodaeth adnabod" yw gwybodaeth sydd, o'i chymryd ar ei phen ei hun neu ynghyd â gwybodaeth arall sydd ym meddiant y ceisydd, yn galluogi i'r gwrthrych gael adnabod neu'i olrhain.

Feto gan berson mabwysiedig

8.—(1) Mae feto yn gymwys mewn perthynas â chais o dan y Rheoliadau hyn—

(a) pan fo'r person yn berson mabwysiedig; a

(b) pan fo'r person hwnnw wedi hysbysu'r asiantaeth fabwysiadu briodol yn ysgrifenedig—

(i) nad yw'n dymuno i asiantaeth gyfryngol gysylltu ag ef mewn perthynas â chais o dan y Rheoliadau hyn; neu

(ii) nad yw ond yn dymuno bod cyswllt yn cael ei wneud ag ef o dan amgylchiadau penodedig neu gan bersonau penodedig.

(2) Pan hysbysir yr asiantaeth fabwysiadu briodol am feto o dan baragraff (1) rhaid iddi gadw cofnod ohono a sicrhau ei bod yn hysbys i unrhyw asiantaeth gyfryngol sy'n cysylltu â hi mewn perthynas â chais o dan y Rheoliadau hyn.

(3) Pan fo asiantaeth gyfryngol yn ymwybodol bod feto yn gymwys, rhaid iddi beidio â bwrw ymlaen â'r cais.

Darparu gwybodaeth gefndir pan fo cydsyniad yn cael ei wrthod etc.

9. Mewn achos pan wrthodir cydsyniad y gwrthrych neu pan na ellir cael ei gydsyniad o dan reoliad 7 neu pan fo feto yn gymwys o dan reoliad 8, nid oes dim yn y rheoliadau hynny yn atal yr asiantaeth gyfryngol rhag datagelu i'r ceisydd unrhyw wybodaeth am y gwrthrych nad yw'n wybodaeth adnabod a bod yr asiantaeth yn ei hystyried yn briodol i'w datgelu.

Cwnsela

10.—(1) Rhaid i asiantaeth gyfryngol ddarparu gwybodaeth ysgrifenedig am argaeledd cwnsela i unrhyw berson—

(a) sy'n gwneud cais iddi o dan y Rheoliadau hyn; neu

(b) sy'n wrthrych cais o'r fath ac sy'n ystyried cydsynio i ddatgelu gwybodaeth amdano i'r ceisydd.

(2) Rhaid i'r wybodaeth a roddir o dan baragraff (1) gynnwys—

(a) disgrifiadau o bersonau sy'n cynnig cwnsela; a

(b) y ffioedd y gellir eu codi gan y personau hynny.

(3) Os yw person a grybwyllir ym mharagraff (1) yn gofyn am gael cwnsela, rhaid i'r asiantaeth gyfryngol sicrhau bod gwasanaethau cwnsela yn cael eu darparu i'r person hwnnw.

(4) Caiff yr asiantaeth gyfryngol ddarparu'r gwasanaethau cwnsela hynny eu hunan neu wneud trefniadau ag unrhyw un o'r personau canlynol am ddarpariaeth cwnsela—

(a) os yw'r person yng Nghymru neu yn Lloegr, asiantaeth fabwysiadu arall neu asiantaeth cymorth mabwysiadu gofrestredig arall;

(b) os yw'r person yn yr Alban, asiantaeth fabwysiadu Albanaidd;

(c) os yw'r person yng Ngogledd Iwerddon, cymdeithas fabwysiadu a gofrestrwyd o dan Erthygl 4 o Orchymyn Mabwysiadu (Gogledd Iwerddon) 1987(**3**) neu oddi wrth unrhyw Fwrdd; neu

(ch) os yw'r person y tu allan i'r Deyrnas Unedig, unrhyw berson neu gorff y tu allan i'r Deyrnas Unedig y mae'n ymddangos i'r asiantaeth ei fod yn cyfateb o ran ei swyddogaethau i gorff a grybwyllir ym mharagraffau (a) i (c).

(5) Yn y rheoliad hwn—

ystyr "Bwrdd" yw Bwrdd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a sefydlwyd o dan Erthygl 16 o Orchymyn Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Gogledd Iwerddon) 1972(**4**) neu pan fo swyddogaethau bwrdd yn arferadwy gan Ymddiriedolaeth Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, yr Ymddiriedolaeth honno.

(**3**) O.S. 1987/2203 (G.I. 22).
(**4**) O.S. 1972/1265 (G.I. 14).